OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 764

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

## RHAN 2

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

### Cyflwyniad

**4.** Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### Diwygiadau i reoliadau 4 i 8

**5.** Yn rheoliad 4(1)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**6.** Yn rheoliad 5(1)—

(a) yn is-baragraff (b)(i), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,";

(b) yn is-baragraff (c)(i), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**7.** Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,";

(b) ym mharagraff (3)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**8.** Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,";

(b) ym mharagraff (3)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**9.** Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,";

(b) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

### Diwygiad i'r Atodlen

**10.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1, yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(**1**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2011/1978 (Cy. 218), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022;";

(b) ar ôl paragraff 4B mewnosoder—

"**4C.** Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir; ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs."